# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Medi 2025

Amser: 09.50

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

09.15 - 09.50

## Sesiwn gyhoeddus

09.50 - 11.40

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.50

## 2 Prosesu Bwyd: Panel 5

09.50 - 10.30 (Tudalennau 1 - 14)

David Chapman, Cyfarwyddwr Gweithredol, UKHospitality Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

## Egwyl

10.30 - 10.40

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Prosesu Bwyd: Panel 6

10.40 – 11.40 (Tudalennau 15 – 30)

Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr – Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
Keith Smyton, Dirprwy Gyfarwyddw – Is-Adran Bwyd, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**
Papur tystiolaeth – Llywodraeth Cymru

## 4 Papurau i'w nodi

11.40

### 4.24 Cynllun Ffermio Cynaliadwy

(Tudalennau 31 – 32)

**Dogfennau atodol:**
Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – 18 Medi 2025

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

11.40

## Sesiwn breifat

11.40 – 12.30

## 6 Prosesu Bwyd: Trafod y dystiolaeth

11.40 – 12.00

## 7 Trafodaeth am Ohebiaeth Fforwm y Cadeiryddion: Adolygiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor

12.00 - 12.10 (Tudalen 33)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth Fforwm y Cadeiryddion at Bwyllgorau'r Senedd - 8 Gorffennaf 2025

## 8 Trafod y Flaenraglen Waith

12.10 - 12.20 (Tudalennau 34 - 42)

**Dogfennau atodol:**

Papur trafod - y flaenraglen waith (Saesneg yn unig)

Llythyr oddi wrth y Llywydd, a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes - 17 Medi 2025

Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) - Amserlen

## 9 Sesiwn i gau pen y mwdwl yn dilyn yr ymweliad â'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd

12.20 - 12.30

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Prosesu Bwyd

Mae prosesu bwyd yng Nghymru yn ysgogi twf cynaliadwy a gwydnwch. Mae ein gwaith yn cyd-fynd â nodau llesiant cenedlaethol ar gyfer yr economi, iechyd a'r amgylchedd, gyda ffocws ar gymorth traws-sector i gryfhau arloesi, caffael a chadwyni cyflenwi lleol.

Mae'r papur tystiolaeth hwn yn darparu gwybodaeth ar gyfer Ymchwiliad Prosesu Bwyd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

# Cynnwys


1. **Cyflwyniad ........................................ 3**
2. **Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod o 2021 ......... 6**
3. **Niferoedd da byw ac ychwanegu gwerth at gynnyrch Cymru ........................................ 11**
4. **Cefnogi twf yn y sector prosesu ........................................ 12**
5. **Caffael cyhoeddus bwyd wedi'i brosesu yng Nghymru ........ 14**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r diwydiant bwyd a diod yn gonglfaen i economi Cymru. Mae'n cwmpasu ystod amrywiol o fusnesau - o gynhyrchwyr cynradd a phroseswyr i fanwerthwyr ac allforwyr - ac mae'n chwarae rhan hanfodol wrth ychwanegu gwerth at gynnyrch Cymru.

**2.** Yn 2024, cefnogodd sector bwyd a diod Cymru 223,500 o swyddi[1] ar draws y gadwyn gyflenwi i sbarduno arloesedd, cynaliadwyedd a datblygu cynnyrch, a helpu i sefydlu Cymru fel cenedl fwyd ddibynadwy, unigryw. Mae'r diwydiant yn cyflogi 17% o weithlu Cymru.

**3.** Mae prosesu bwyd yn galluogi'r broses o drawsnewid deunyddiau crai yn gynhyrchion gwerth ychwanegol, yn cefnogi twf lleol, ac yn sail i gadwyni cyflenwi gwydn. Mae'n cyfrannu at ein hiechyd a'n llesiant, a'n twf economaidd, sy'n allweddol ar gyfer cyflawni amcanion llesiant.

**4.** Cyhoeddwyd *Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod* ('y Weledigaeth') yn 2021, gan osod amcanion uchelgeisiol i dyfu gwerth y sector i £8.5 biliwn erbyn 2025, gwella cynhyrchiant, codi safonau, a hyrwyddo Cymru fel Cenedl Fwyd a gydnabyddir yn fyd-eang. Mae hefyd yn ymrwymo i gynyddu nifer y cynhyrchion o Gymru sydd â statws gwarchodedig a sicrhau bod 80% o'r gweithlu yn ennill o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae'r Weledigaeth yn darparu fframwaith strategol ar gyfer cydweithio rhwng y llywodraeth, y diwydiant, y byd academaidd a chymunedau, ac mae'n parhau i lywio buddsoddiad, arloesedd a gwaith datblygu polisi ar draws y system fwyd.

**5.** Ers 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gyflawni polisïau allweddol sy'n cefnogi prosesu bwyd a'r system fwyd ehangach. Rydym wedi cefnogi amgylcheddau bwyd iachach trwy Pwysau Iach: Cymru Iach ac wedi gweithio gyda'r diwydiant bwyd i ailfformiwleiddio cynhyrchion er mwyn lleihau'r siwgr, yr halen a'r braster sydd ynddynt.

**6.** Mae Cymru yn ymdrechu i fod yn un o'r gwledydd gorau yn y byd ar gyfer ffermio cynaliadwy, i fodloni ein rhwymedigaethau byd-eang ar newid hinsawdd heb adleoli cynhyrchu bwyd i wledydd sydd â safonau is. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) wedi'i gynllunio i ysgogi cynhyrchu sy'n gyfrifol yn amgylcheddol, sydd yn ei dro yn cefnogi proseswyr sy'n ceisio

[1] Gwerthusiad Economaidd: Sector Bwyd a Diod Cymru | Busnes Cymru - Bwyd a diod

bodloni safonau cynaliadwyedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyflenwad sefydlog a digonol o dda byw yn hanfodol i hyfywedd y sectorau prosesu cig coch a llaeth yng Nghymru.

**7.** Fel llywodraeth rydym yn cefnogi busnesau bwyd a diod o wahanol feintiau ac aeddfedrwydd i dyfu a ffynnu trwy sawl cynllun a gwasanaethau ehangach. Mae'r rhaglenni cymorth hyn yn darparu cyngor ac arweiniad arbenigol drwy gydol taith y busnes ac mewn meysydd eraill fel datblygu, technoleg arloesol, data ac ymchwil. Rhennir gwybodaeth drwy gymorth busnes un-i-un, trwy'r Rhwydwaith Clwstwr, Rhaglenni Cywain, Uwchraddio, Parod am Fuddsoddiad, Masnach a Gwasanaethau Bwyd a Helix a thrwy ein Rhaglen bwrpasol Mewnwelediad i'r Farchnad.

**8.** Mae rhaglenni datblygu allforio a Buddsoddi Tramor yn cefnogi busnesau Cymru drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer masnach ac allforio rhyngwladol, arddangos bwyd a diod Cymru i gynulleidfa ryngwladol o brynwyr, dosbarthwyr a dylanwadwyr, a denu mewnfuddsoddiad. Mae allforio hefyd yn cefnogi arallgyfeirio risg busnes, yn sbarduno arloesedd, a gall wella ansawdd swyddi.

**9.** Mae broceriaeth Blas Cymru/Taste Wales yn creu cyfleoedd busnes i fusnesau bwyd a diod ac yn hyrwyddo bwyd a diod Cymru ar lwyfan domestig a rhyngwladol. Yn y froceriaeth ddiweddaraf ym mis Hydref 2023 roedd 276 o brynwyr masnach (11 o wledydd) a 122 o gynhyrchwyr o Gymru, gan gynnwys 15 o Sêr y Dyfodol; cynhaliwyd 2,100 o gyfarfodydd busnes; 203 o geisiadau cystadleuaeth cynnyrch newydd; ac fe gynhyrchodd werth £38m o gyfleoedd busnes newydd.

**10.** Mae Rhaglenni Bwyd a Diod Cymru yn canolbwyntio ar iechyd, addysg a'r economi sylfaenol i gynyddu masnach gyda manwerthwyr, siopau annibynnol, y sector cyhoeddus, a gwasanaethau bwyd yn y DU. Mae cydweithio â'r prif fanwerthwyr, arweinwyr cyfanwerthu a chaffael wedi sicrhau miliynau i economi Cymru ac wedi creu a diogelu miloedd o swyddi.

**11.** Nod Deddf Caffael newydd 2023 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yw cefnogi cadwyni cyflenwi lleol i gynyddu faint o fwyd a diod Cymru a brynir.

**12.** Yn ategu'r ymdrechion hyn, mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol (CFS) yn hyrwyddo cynhyrchu bwyd lleol, gwydnwch cymunedol, a chadwyni cyflenwi byrrach, sydd o fudd i'r sector prosesu. Mae'n ymrwymo i nodi cyfleoedd ar

gyfer caffael bwyd lleol mewn lleoliadau fel sectorau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

**13.** Yn ogystal, mae Bwyd o Bwys: Cymru yn dangos aliniad traws-adrannol Llywodraeth Cymru wrth gyflawni ar gyfer y sector, gyda chymorth gwaith y Fforwm Bwyd trawslywodraethol. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn sicrhau bod polisi bwyd yn cael ei integreiddio ar draws amaethyddiaeth, iechyd, yr economi, yr amgylchedd ac addysg, gan atgyfnerthu pwysigrwydd strategol prosesu bwyd yng Nghymru.

# 2. Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod o 2021

**1.** Mae'r Weledigaeth yn parhau i ddarparu fframwaith cydlynol ac effeithiol ar gyfer cymorth Llywodraeth Cymru i'r diwydiant bwyd a diod. Dangosir tystiolaeth o gyflawni yn erbyn yr amcanion hyn drwy ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae ei hamcanion yn canolbwyntio ar dwf, cynhyrchiant, cynaliadwyedd, gwaith teg, a'n henw da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r 'Weledigaeth' wedi arwain ystod eang o ymyriadau busnes cyfrifol sy'n parhau i fod yn ganolog i ddatblygiad gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod yng Nghymru.

**2.** Mae ffigurau'r Gwerthusiad Economaidd diweddaraf yn dangos twf parhaus a chyflawni a amlinellir yn nangosyddion perfformiad allweddol y Weledigaeth, gan gynnwys y canlynol:

- Cyrhaeddodd trosiant y sector £10.2 biliwn yn 2024, cynnydd o 10% ers 2023. (Nid yw hyn yn cynnwys effeithiau chwyddiant).
- Cyrhaeddodd gwerth allforio'r lefel uchaf erioed, sef £839 miliwn, cynnydd o 3% o un flwyddyn i'r llall a 47% ers 2019. (Nid yw hyn yn cynnwys effeithiau chwyddiant).
- Cyrhaeddodd cyflogaeth ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd 223,500, sy'n cyfrif am 17% o weithlu Cymru.
- Erbyn hyn mae 570 o fusnesau gweithgynhyrchu bwyd a diod, a'r sectorau pobi, cig, llaeth a grawn yw'r cyflogwyr mwyaf.
- Roedd cyfanswm o 663 o unedau ar gyfer busnesau gweithgynhyrchu bwyd a diod, gyda phobi a chynhyrchion bwyd eraill yn arwain o ran cyflogaeth.

**3.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau'r cyflawni drwy gyfres o bolisïau a rhaglenni sy'n ategu'i gilydd:

**4.** Mae ein Rhaglen Helix Genedlaethol yn darparu cymorth wedi'i deilwra i bob busnes bwyd a diod ledled Cymru. Mae'r Rhaglen yn dwyn ynghyd bedair Canolfan Fwyd ledled Cymru ac mae'n ymroddedig i annog datblygiad y sector bwyd a darparu cymorth technegol a gweithredol ar bob agwedd ar weithgynhyrchu bwyd. Mae'r asedau hyn yn cefnogi arloesedd busnes, datblygu cynhyrchion newydd, HFSS/Ailfformiwleiddio, a gwella cynhyrchiant.

Mae'r rhaglen hon hefyd yn hanfodol ar gyfer diogelwch bwyd a gwydnwch bwyd yng Nghymru.

**5.** Mae ein rhaglenni Clwstwr yn cefnogi gwaith cyflawni'r 'Weledigaeth', drwy annog cydweithio rhwng busnesau a chefnogi digwyddiadau i rannu arferion gorau a mynd i'r afael â heriau cyffredin.

**6.** Mae ein Rhaglenni Ymgysylltu â Masnach yn allweddol i ddatblygu'r farchnad ddomestig yn y DU ar gyfer y busnesau hynny sy'n gweithgynhyrchu ar gyfer manwerthu a gwasanaethau bwyd. Mae rowndiau olynol o waith ymchwil Gwerth Cymreictod wedi dangos bod canfyddiadau defnyddwyr Prydain Fawr o gynhyrchion Cymru o ansawdd cynhenid uwch na chynhyrchion tebyg.

**7.** Mae'r Rhaglen Datblygu Masnach wedi sicrhau cefnogaeth ar gyfer cynhyrchion Cymru gan yr holl fanwerthwyr mawr a busnesau gwasanaethau bwyd mwy. Mae hyn yn gofyn am gymorth parhaus i gynnal rhestrau cynnyrch. Mae ein Rhaglen Gwasanaethau Bwyd yn targedu prynwyr o'r sectorau gwasanaethau bwyd, lletygarwch a chaffael cyhoeddus i sicrhau arlwy cynyddol o gynhyrchion bwyd a diod Cymru i'w cwsmeriaid.

**8.** Mae Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn parhau i fod yn elfen allweddol o ran datblygu masnach. Mae'r Lolfa Fusnes yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn gyrchfan ar gyfer prynwyr masnach ac mae miliynau o bunnoedd o archebion yn cael eu sicrhau trwy'r gwaith ymgysylltu hwn.

**9.** Mae'r Rhaglenni Parod am Fuddsoddiad ac Uwchraddio ill dwy yn cefnogi twf yn Sector Bwyd a Diod Cymru drwy ddarparu'r offer a'r mecanweithiau busnes sydd eu hangen i fusnesau fod yn wydn ac i ffynnu. Mae'r rhain yn galluogi busnesau sy'n cymryd rhan i gael gafael ar fuddsoddiad ac yn darparu cymorth i wneud penderfyniadau twf busnes cynaliadwy gwybodus. Yn ogystal, mae gwerth ychwanegol gros, enillion ar gyfalaf a ddefnyddir (Y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd) a swyddi newydd a gynhyrchir yn cael eu holrhain yn agos fel modd o asesu cyfraniad y sector i economi gyffredinol Cymru. Mae'r cymorth busnes a ddarperir wedi galluogi gweithgynhyrchwyr bwyd i ariannu, datblygu a thyfu eu busnesau mewn cyfnod economaidd anodd.

**10.** Mae Rhaglen Cywain yn darparu Gwasanaeth Cynghori Cymru gyfan i ddarparu cyngor integredig i ddiwydiant Bwyd a Diod Cymru. Mae ystod eang o feysydd rheoli technegol a busnes arbenigol wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion busnes unigol. Mae gwasanaeth cynghori Cymru yn darparu rhaglen arloesol at ddiben lledaenu gweithgareddau a digwyddiadau

trosglwyddo gwybodaeth er budd busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys archwilio tueddiadau, marchnadoedd posibl a sut y gall cynhyrchwyr arallgyfeirio arferion ffermio.

**11.** Mae Cynllun Dynodiad Daearyddol y DU (UKGI) wedi'i hen sefydlu. Mae'r cynllun yn ddull o ddiogelu eiddo deallusol a ddefnyddir i nodi cynhyrchion y mae eu hansawdd a'u henw da yn gysylltiedig â'r rhanbarth lle maent wedi'u cynhyrchu, neu ddiogelu'r dull prosesu a ddefnyddiwyd i'w cynhyrchu. Heddiw, mae 24 o gynhyrchion Cymru wedi derbyn y statws GI, sy'n fwy o gynhyrchion pro rata fesul poblogaeth nag unrhyw wlad arall yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i annog a chefnogi ceisiadau o bob is-sector yng Nghymru i hyrwyddo'r rhaglen gymorth hon i ddiwydiant bwyd a diod Cymru.

**12.** Mae'r Rhaglen Mewnwelediad i'r Farchnad yn darparu gwybodaeth gyfredol ar y sector bwyd a diod, ynghyd â rhagwelediad i ddatblygiadau yn y farchnad yn y dyfodol. Mae'n defnyddio data ac arbenigedd gan asiantaethau arbenigol, sy'n canolbwyntio ar fanwerthu nwyddau groser a defnydd y tu allan i'r cartref, tueddiadau byd-eang ac arloesi ym maes bwyd a diod, perfformiad allforio ar draws marchnadoedd rhyngwladol, a mewnwelediadau i sector nwyddau groser y DU. Mae'r sylfaen dystiolaeth hon yn llywio gwaith datblygu polisi ac yn cefnogi twf a chystadleurwydd busnesau bwyd a diod yng Nghymru.

**13.** Comisiynwyd astudiaeth fawr yn 2025, sef 'Deietau'r Dyfodol', i nodi tueddiadau o ran yr hyn y mae defnyddwyr yn ei fwyta a'r newidiadau mewn deiet o nawr i 2035. Bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn bennaf yn dewis ac yn bwyta bwyd a diod sy'n fforddiadwy ac yn gyfleus. Ers y gwaith ymchwil hwn ac ochr yn ochr â'r cefndir deddfwriaethol a manwerthu, lansiwyd y rhaglen Datblygu Cynnyrch Newydd Bwydydd Iachach drwy gyfres o weithdai ar gyfer cwmnïau Bwyd a Diod Cymru. Roedd y rhaglen hon yn canolbwyntio ar sut y gall cwmnïau bwyd a diod ymateb i'r rhagolygon, trwy ddatblygu cynhyrchion iachach sy'n bodloni dyhead defnyddwyr o ran cyfleustra a fforddiadwyedd, boed hynny trwy ailfformiwleiddio, amrywiaeth newydd o gynnyrch, neu ehangu'r amrywiaeth o gynnyrch.

**14.** Darperir cymorth technegol ar gyfer ailfformiwleiddio drwy Arloesi Bwyd Cymru, gan gefnogi busnesau i gyflawni nodau iechyd a chynaliadwyedd.

**15.** Nod Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025 yw cyflymu'r gwaith o ailfformiwleiddio a sicrhau chwarae teg ar gyfer cynhyrchion iachach.

**16.** Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn sicrhau cyngor strategol ac yn cefnogi twf a gwaith hyrwyddo'r sector. Mae'r Bwrdd yn hybu enw da diwydiant bwyd a diod Cymru wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r 'Weledigaeth'.

**17.** Mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn cynnwys chwe amcan a fydd yn cefnogi diogelwch bwyd, garddwriaeth leol, a chadwyni cyflenwi gwydn, gan fod o fudd anuniongyrchol i broseswyr drwy seilwaith a chymorth caffael.

**18.** Mae Grŵp Cynghori Gweinidogol wedi'i sefydlu i gefnogi gweithredu'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn effeithiol ac ar y cyd. Bydd hyn yn tynnu ynghyd uwch-randdeiliaid a phartneriaid cyflawni allweddol i ganolbwyntio ar gyflawni'r amcanion yn llwyddiannus.

**19.** Rydym yn cydweithio'n agos â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i swyddfa, ac rydym wedi gweld y pwysigrwydd a roddir ar y diwydiant bwyd yn ei strategaeth Cymru Can. Bydd y cydweithrediad hwn yn parhau wrth i ni gefnogi Cyrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd i ymgorffori bwyd fel blaenoriaeth o fewn y broses o ddarparu gwasanaethau lleol.

**20.** Mae'r Strategaeth Bwyd Cymunedol yn ystyried anghenion amrywiol cymunedau Cymru, trwy ddull sy'n seiliedig ar leoedd, i alluogi gweithgarwch lleol ar gyfer blaenoriaethau lleol. Cefnogir hyn gan becyn cyllid traws-bortffolio o dros £2 filiwn ar gyfer Partneriaethau Bwyd Lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-2026.

**21.** Mae'r Partneriaethau Bwyd Lleol hyn bellach wedi'u sefydlu ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru a byddant yn darparu cydlyniad strategol mawr ei angen ar brosiectau bwyd lleol 'ar lawr gwlad'. Byddant yn creu cyfleoedd cyflenwi newydd trwy gysylltu rhanddeiliaid bwyd lleol – gan gynnwys cynhyrchwyr, busnesau, cyfanwerthwyr a gwasanaethau sector cyhoeddus. Trwy uno ffermwyr â sefydliadau ehangach ar hyd y gadwyn gyflenwi, bydd hyn hefyd yn ategu amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

**22.** Mae'r camau hyn yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyflawni'n effeithiol yn erbyn amcanion y Weledigaeth ac y bydd yn parhau i wneud hynny, gan addasu i heriau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg drwy ymyriadau trawsbynciol wedi'u targedu.

**23.** Er bod y Weledigaeth wedi'i llunio yn 2021 yn ystod cyfnod o darfu acíwt, mae'r gwendidau sylfaenol yr oedd yn ymateb iddynt - bregusrwydd y

gadwyn gyflenwi, ansicrwydd bwyd, a gwydnwch economaidd - yn dal i fod yn bresennol.

**24.** Yn hytrach na bod wedi dyddio, mae'r Weledigaeth wedi profi i fod yn fframwaith gwydn ac yn un y gellir ei addasu. Mae pwyslais y Weledigaeth ar gadwyni cyflenwi lleol, prosesu gwerth ychwanegol, a thwf cynaliadwy yn parhau i fod yn ymateb cadarn i'r bygythiadau parhaol hyn.

**25.** Mae'n parhau i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan gefnogi nodau ar gyfer Cymru ffyniannus, gydnerth ac iachach.

**26.** Mae ei hamcan craidd - twf, cynhyrchiant, gwaith teg, cynaliadwyedd, a'i henw da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol - yn dal i fod yn berthnasol ac y mae modd gweithredu arno.

# 3. Niferoedd da byw ac ychwanegu gwerth at gynnyrch Cymru

1. Mae bwyd yn un o sectorau sylfaenol ein heconomi, ac mae ein hinsawdd yn fwy addas na llawer o rannau eraill o'r byd i gynhyrchu cig coch a llaeth cynaliadwy o ansawdd uchel.

2. Rydym wedi ymrwymo i sector amaethyddol cynaliadwy, bywiog a llwyddiannus a chadwyn fwyd sy'n helpu i greu sail i'r economi wledig ehangach.

3. Fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, mae angen i ni sicrhau bod ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur wedi'i ymgorffori ym mhopeth a wnawn. Mae angen i ni ddarparu'r cymorth cywir i'n ffermwyr drwy gydol y broses bontio i system fwyd wedi'i datgarboneiddio a sicrhau bod tir Cymru yn addas ar gyfer y dyfodol.

4. Bydd y dyfodol llwyddiannus hwn i ffermio yng Nghymru yn seiliedig ar gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gofalu am ein hamgylchedd a bod yn gartref i'n cymunedau gwledig, ac ar ddelio yr un pryd â'r argyfyngau hinsawdd a natur rydym ni a chenedlaethau'r dyfodol yn eu hwynebu.

5. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cynhyrchu da byw cynaliadwy drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n anelu at gydbwyso canlyniadau amgylcheddol â chynhyrchu bwyd. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cefnogi'r sector i gynnal a chynyddu gwerth cig coch Cymru, gan gynnwys ei statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI).

6. Rydym yn gweithio'n agos gyda Hybu Cig Cymru i ddatblygu Gweledigaeth ddiwygiedig ar gyfer y sector cig coch, wedi'i hategu gan ddata a thystiolaeth gadarn. Bydd hyn yn helpu i fynegi rhinweddau cynaliadwyedd systemau da byw Cymru a llywio cymorth yn y dyfodol.

7. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu cyngor Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (CCC) ar niferoedd da byw fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Cyllideb Garbon 4 (2031–35). Rydym wedi ymrwymo i bontio teg sy'n cefnogi ffermwyr, yn amddiffyn bywoliaethau gwledig, ac yn cryfhau sectorau sylfaenol fel bwyd.

# 4. Cefnogi twf yn y sector prosesu

**1.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl ganolog prosesu bwyd wrth greu gwerth ychwanegol, cadw cyfoeth yn lleol, a galluogi cadwyni cyflenwi byrrach a mwy gwydn. Mae prosesu yn ddolen hanfodol rhwng cynhyrchu cynradd a mynediad i'r farchnad, ac mae ei ddatblygiad yn hanfodol i gyflawni amcanion y Weledigaeth o ran twf, cynaliadwyedd a gwaith teg.

**2.** Mae cymorth Llywodraeth Cymru i'r sector prosesu yn cael ei ddarparu trwy gyfuniad o raglenni strategol, cyllid wedi'i dargedu, a chymorth arloesi.

**3.** Yn y sector cig coch a llaeth, mae'r cymorth wedi canolbwyntio ar alluogi proseswyr i fodloni gofynion tystysgrifau allforio, mabwysiadu technolegau newydd, a chael mynediad at farchnadoedd premiwm drwy frandio a Dynodiadau Daearyddol (e.e. PGI Cig Oen a Chig Eidion Cymru). Mae Deddf Caffael 2023 yn cryfhau mynediad i'r farchnad ddomestig ymhellach trwy gynyddu gallu'r sector cyhoeddus i gael gafael ar fwyd wedi'i brosesu yng Nghymru.

**4.** Yn y sector garddwriaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol hirsefydlog i dwf. Mae'r Cynllun Datblygu Garddwriaeth a'r Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth yn darparu cymorth cyfalaf i fentrau newydd a phresennol, gan gynnwys y rhai sy'n buddsoddi mewn cyfleusterau pacio, storfeydd oer, a chapasiti prosesu.

**5.** Yn ein Datganiad Ysgrifenedig ar Ddatblygu Polisi Garddwriaeth, fe wnaethom nodi bwriad polisi clir i dyfu'r sector trwy ddull cytbwys sy'n integreiddio diwygio cynllunio, cymorth busnes, a datblygu sgiliau.

**6.** Mae sefydlu Gweithgor Cynllunio Garddwriaeth Cymru a'r ymrwymiad i ddiweddaru Polisi Cynllunio Cymru yn arwydd o newid strategol tuag at alluogi garddwriaeth fel cyfle defnydd tir a phrosesu hyfyw.

**7.** Mae cymorth pellach yn cael ei ystyried i fynd i'r afael â heriau systemig, gan gynnwys:

- Buddsoddiad seilwaith ar gyfer cyfleusterau prosesu ar raddfa fach a rhanbarthol.
- Datblygu sgiliau drwy Cyswllt Ffermio a Lantra, gyda ffocws ar rolau technegol ym maes prosesu.

- Gwell canllawiau cynllunio i hwyluso'r gwaith o ddatblygu safleoedd prosesu sy'n gysylltiedig â garddwriaeth.
- Gwell mynediad at gyllid i fusnesau bach a chanolig sy'n ceisio moderneiddio neu ehangu gweithrediadau prosesu.

**8.** Mae'r camau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gryfhau'r sector prosesu fel sbardun gwerth ychwanegol, cyflogaeth wledig, a gwydnwch y system fwyd. Trwy ein Strategaeth Bwyd Cymunedol, rydym wedi parhau i ymgorffori'r blaenoriaethau hyn yn fwy penodol a sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn barhaus â meysydd polisi, fel diogelwch bwyd.

# 5. Caffael cyhoeddus bwyd wedi'i brosesu yng Nghymru

1. Mae bwyd yn sector hanfodol o fewn Economi Sylfaenol Cymru, sy'n cyfrif am 28% o'r holl fusnesau sylfaenol ac yn cynhyrchu'r trosiant uchaf, sef £21.7 biliwn.

2. Mae caffael bwyd yn y sector cyhoeddus, sy'n werth oddeutu £85 miliwn, yn gyfle sylweddol i gefnogi cynhyrchwyr a phroseswyr Cymru, cryfhau cadwyni cyflenwi lleol, a darparu gwerth cymdeithasol.

3. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull strategol o fynd i'r afael â rhwystrau i gaffael cyhoeddus bwyd wedi'i brosesu yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar seilwaith, arloesi, achredu a diwygio caffael.

4. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar fyrhau cadwyni cyflenwi a lleihau dibyniaeth ar fewnforion drwy gynyddu faint o fwyd Cymru sy'n cael ei weini mewn ysgolion ac ysbytai. Mae prosiectau a ariennir trwy'r rhaglen Economi Sylfaenol wedi helpu i feithrin cysylltiadau cryfach rhwng tyfwyr, proseswyr, cyfanwerthwyr, a phrynwyr sector cyhoeddus.

5. Cefnogodd prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, dan arweiniad Synnwyr Bwyd Cymru, wyth tyfwr newydd a darparodd 200,000 o ddognau o lysiau organig, lleol ar draws chwe awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd y diffyg seilwaith—fel cyfleusterau i olchi, sleisio, a storio cynnyrch—yn rhwystr allweddol. Rydym bellach yn ariannu gwaith trwy Bartneriaethau Bwyd Lleol i ddechrau datblygu seilwaith rhanbarthol yn agos at fannau cynhyrchu poblogaidd.

6. Mae Castell Howell a Gwasanaeth Bwyd Harlech wedi adrodd am gynnydd sylweddol o ran y cyflenwad bwyd o Gymru i ysgolion ac ysbytai. Cynyddodd gwariant Castell Howell ar fwyd Cymru 173% rhwng 2021 a 2024, tra bod Gwasanaeth Bwyd Harlech wedi adrodd am 90% o gynnydd ar gyfer cig Cymru, 120% ar gyfer llaeth Cymru, a 64% ar gyfer diodydd ysgol Cymru.

7. Mae arloesi mewn cynhwysion wedi'u prosesu yng Nghymru wedi bod yn ganolog i'n dull gweithredu. Trwy gymorth ar gyfer cangen prosesu cig Celtica Castell Howell, mae prydau ysgol newydd maethlon ag ôl troed carbon bychan wedi'u datblygu gan ddefnyddio cig a llysiau o Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys peli cig o Gymru, byrgyrs madarch hybrid o Gymru a sawsiau tomato o Gymru , wedi'u cynllunio ar y cyd â swyddogion arlwyo a phlant ysgol.

**8.** Mae'r prosiect Tech Tyfu wedi galluogi cwmnïau bach i fynd i mewn i gadwyni cyflenwi sector cyhoeddus a phreifat gyda dulliau cynhyrchu ecogyfeillgar. Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Fferm Cwm yr Wyddfa, yn treialu technoleg lleihau halwynedd dŵr i wella cynnyrch tomato.
- Fresh and Tasty, bellach yn cyflenwi microlysiau a blodau bwytadwy i chwe sir.
- Fungi Foods, yn dosbarthu 20,000 o becynnau o fadarch pigau barfog i Aldi.

**9.** Drwy'r Cynllun Grant Achredu Bwyd, fe wnaethom gefnogi 73 o gwmnïau bwyd o Gymru, gan helpu i gadw 1,119 o swyddi a gwella eu siawns o ennill contractau cyhoeddus.

**10.** Mae mynediad at dir ac anheddau addas i dyfwyr yn hanfodol ar gyfer ehangu garddwriaeth. Datblygodd y prosiect Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol ganllawiau cynllunio sy'n cael eu gweithredu bellach ym Mhowys, gan gynnwys modelau defnydd cymysg ar gyfer tai, cyflogaeth a thyfu. Mae'r datblygiadau hyn yn cyd-fynd ag ymgynghoriad Cyngor Powys ar ei Bolisi Ystad Fferm y Cyngor.

**11.** Mae caffael cyhoeddus yn aml yn cael ei nodi fel rhwystr i gaffael lleol, ond mae hyblygrwydd deddfwriaethol yn bodoli i gefnogi arloesedd a gwerth cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu:

- ‘Prynu Bwyd Addas i'r Dyfodol’, adnodd ar-lein sy'n ymgorffori egwyddorion caffael cynaliadwy.
- ‘Pŵer Prynu'r Plât Cyhoeddus’, canllawiau caffael cyfreithiol a weithredwyd gan Gyngor Caerffili yn ei Fframwaith Bwyd De Cymru, a oedd yn blaenoriaethu ansawdd dros bris (rhaniad 70/30) a chyflwyno lot Cymreig newydd gyda chwmni Castell Howell yn ennill 100 allan o 150 lot.

**12.** Rydym yn cydnabod yr her o ehangu cynlluniau peilot llwyddiannus yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol, a gefnogodd lawer o'r mentrau hyn, wedi dod i ben oherwydd cyfyngiadau ariannol. Fodd bynnag, rydym yn ariannu ehangu'r prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yng Ngogledd Cymru ac yn archwilio ffrydiau cyllido Llywodraeth y DU i gefnogi meysydd blaenoriaeth.

**13.** Mae prosiect Larder Cymru, dan arweiniad Menter Môn, wedi dangos sut y gall perthynas well rhwng rheolwyr caffael, swyddogion arlwyo, a chyflenwyr gynyddu bwyd Cymru ar fwydlenni ysgol. Gwnaeth Cyngor Caerffili bron â dyblu ei wariant ar fwyd Cymru yn dilyn adolygiad o'r fwydlen, gyda 72% o'r rhieni a holwyd yn cefnogi mwy o opsiynau lleol.

**14.** Mae Deddf Caffael 2023 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn cryfhau caffael bwyd cynaliadwy ymhellach trwy symud ffocws o'r gost isaf i gostau oes gyfan a gwerth cymdeithasol.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

18 Medi 2025

Annwyl Huw,

**Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

Yn ein cyfarfod ar 17 Gorffennaf, gwnaethoch ailddatgan eich ymrwymiad i ddarparu'r asesiad effaith economaidd ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ym mis Medi. Ddydd Mawrth gofynnais i'r Prif Weinidog am ddiweddariad ynghylch pryd y byddai'r asesiad effaith ar gael.

Dywedodd y Prif Weinidog eich bod wedi 'rhannu rhywfaint o wybodaeth eisoes gyda'r ford gron weinidogol ar y mater hwn'. Dywedodd ei fod yn cynnwys cynrychiolwyr o undebau ffermio, sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol a sefydliadau eraill. Dywedodd eu bod yn y camau olaf o becynnu'r wybodaeth honno ac y bydd yn cael ei chyhoeddi'n fuan iawn i bawb ei gweld.

Dywedodd hefyd ei bod yn ymwybodol pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar gymunedau gwledig. Mae'n gwybod bod y sector amaethyddol yn mynd i orfod addasu ac mae'n cydnabod y bydd angen gwybod pa effaith y bydd yn ei chael.

Fel y gwyddoch, mae ffermio yn ddiwydiant hirdymor, ac mae angen i ffermwyr gynllunio tymhorau ymlaen llaw. Ni allant ymgymryd â'r gwaith cynllunio hwn oni bai bod ganddynt sicrwydd. O ystyried yr effaith bosibl y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ei chael, mae'n hanfodol bod yr asesiad effaith a dogfennau cysylltiedig eraill yn cael eu cyhoeddi yn ddi-oed.

Diolch am gytuno i roi tystiolaeth mewn sesiwn graffu gweinidogol cyffredinol gyda'r Pwyllgor ar 1 Hydref. Er mwyn cefnogi'r Aelodau i archwilio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ystod y sesiwn hon, a fyddech cystal â chyflwyno'r asesiad effaith economaidd i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

Yn ddelfrydol, hoffem ei gael erbyn dydd Iau 25 Medi. Byddai hyn yn caniatáu inni ei gynnwys yn y papurau ar gyfer y cyfarfod, sydd i'w cyhoeddi ar 26 Medi.

Yn gywir,



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Elin Jones AS, Llywydd**
Senedd Cymru
**Elin Jones MS, Presiding Officer**
Welsh Parliament

Eitem 7

Pwyllgorau'r Senedd
Dros e-bost

8 Gorffennaf 2025

Ymgynghoriad: Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd


Annwyl Gadeirydd

Byddwch yn ymwybodol bod Fforwm y Cadeiryddion wrthi'n ystyried sut y mae pwyllgorau wedi gweithredu yn ystod y Chweched Senedd. Nod y gwaith hwn yw nodi a ellir gwella gweithdrefnau ac arferion pwyllgorau i sicrhau bod y swyddogaeth graffu mor effeithiol â phosibl, a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r Seithfed Senedd. Mae'r Fforwm yn awyddus i ystyried materion diwylliannol ehangach ynghylch gweithrediad pwyllgorau'r Senedd, yn ogystal â materion ymarferol fel maint a swyddogaeth.

Mae Pwyllgor Senedd y Dyfodol hefyd wedi gwneud nifer o argymhellion i'r Fforwm ynghylch system y pwyllgorau ac ystyriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd, ac mae'r rhain wedi'u hystyried yn y gwaith ar y mater hwn.

Mae'r Fforwm wedi lansio ymgynghoriad, a byddem yn ddiolchgar o gael barn pwyllgorau unigol ar y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori, ac unrhyw fyfyrdodau yr ydych yn eu hystyried yn berthnasol, erbyn 12 Medi 2025.

Yn gywir



Elin Jones AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Andrew RT Davies MS

Chair, Economy, Trade, and Rural Affairs Committee

19 September 2025

Dear Andrew,

**The Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation (Wales) Bill**

At its meeting this week, the Business Committee considered a paper from the Government on its proposed timetable for the Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation (Wales) Bill.

As you are aware, the Business Committee has previously proposed that this Bill be referred to the Economy, Trade and Rural Affairs Committee (ETRA) for Stage 1 scrutiny.

We considered the revised timetable for scrutiny alongside the indicative timetable provided by the Government prior to the summer recess, as well as your letter of 10 September 2025. Members of the Business Committee expressed concerns about the impact that the curtailed timetable proposed for Stage 1 would pose for committee scrutiny and noted the views expressed in your letter regarding the difficulties posed by the original timetable.

The Trefnydd stated that the development process for the Bill has taken longer than anticipated and reaffirmed that the Government will provide a draft version of the Bill to your Committee and relevant stakeholders four weeks prior to introduction, in line with the approach taken recently on other Bills. The Trefnydd also agreed to feedback the concerns expressed.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Nevertheless, we acknowledge the further restrictions contained within this timetable and the challenges that this will pose.

I enclose the Minister’s paper containing the proposed Bill timetable for your consideration. I would be grateful if you could respond to us outlining your views on the timetable once the ETRA Committee has been able to consider this.

Kind regards,

**The Rt Hon. Elin Jones MS**
Y Llywydd and Chair of the Business Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon